# Y Pwyllgor Menter A Dysgu

**EL(3)-17-08 (p1): 12 Mehefin 2008**

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch

### Ymateb gan Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector

1. Mae'r ddogfen grynhoi hon yn mynd gyda chyflwyniadau ysgrifenedig gan y Rhwydwaith Cynghorau Sgiliau Sector.  Nid yw'n ceisio crynhoi cyflwyniadau unigol sy'n sefyll ar ben eu hunain i'w trafod yn y pwyllgor.  Mae'n ceisio darparu cyd-destun ar gyfer y pwyllgor trwy danlinellu'r cyfraniad craidd a wneir fwyfwy gan Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) yn y maes hwn.

2. Erbyn hyn mae'r Cynghorau Sgiliau Sector wedi sefydlu Cynghrair Cynghorau Sgiliau Sector i'w helpu i gydgysylltu i greu un llais ac i gefnogi gweithgareddau cydweithredol rhwng y CSSau.  Mae'r Gynghrair yn parhau i gefnogi fforwm yng Nghymru, fydd dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr a etholwyd gan y CSSau, mae Stephen Studd, Prif Weithredwr SkillsActive (y CSS ar gyfer y Sector Dysgu a Hamdden Heini) wedi ymgymryd â'r rôl hon a bydd yn sicrhau cyswllt rhwng Bwrdd a Chyngor y Gynghrair.

3. Bu'r Gynghrair yn ymateb yn ddiweddar hefyd i'r ymgynghoriad ar 'Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru' ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i'w weithredu.  Roedd y CSSau'n gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth a roddwyd i GSSau yn y ddogfen "Bydd rhwydwaith cryf o GSSau yng Nghymru, yn gweithio'n agos gyda chyrff cyflogwyr, yn helpu i atgyfnerthu llais y cyflogwr mewn penderfyniadau a wneir o ran darpariaeth sgiliau … y CSSau fydd y rhyngwyneb strategol rhwng cyflogwyr a Llywodraeth y Cynulliad" (tud.12).  Mae'r Gynghrair wedi ymrwymo i atgyfnerthu a chefnogi rôl  y CSSau sy'n aelodau ohoni yng Nghymru i sicrhau bod hyn yn dod yn realiti.

4. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth gan 21 o GSSau a bydd Cadeirydd newydd y Fforwm CSS yng Nghymru, Stephen Studd (Prif Weithredwr SkillsActive) yn arwain grwp o 11 o gynrychiolwyr wrth gyfarfod gyda'r Pwyllgor, fydd yn gallu ateb cwestiynau ar gyflwyniadau eu sectorau penodol.

### Themâu

5. Nodwedd  hanfodol y Sectorau yw bod ganddynt gymysgedd arbennig o anghenion cyflogaeth a sgiliau ac adlewyrchir hyn yn yr ymatebion manwl wrth i bob CSS weithio i nodi'r berthynas benodol sydd ei hangen ar eu cyflogwyr gyda'r rhwydwaith Addysg Uwch yng Nghymru.  Fodd bynnag, credwn fod yna themâu cyffredin sy'n rhedeg trwy'r cyflwyniadau a all fod yn sail ar gyfer trafodaeth bellach.

### Deall Rôl  y Cynghorau Sgiliau Sector

6. Ffurfiwyd Cynghorau Sgiliau Sector gan gyflogwyr ac maent wedi'u trwyddedu gan y Llywodraeth i roi llais cydgysylltiedig i gyflogwyr a rôl arweiniol o ran datblygu sylfaen sgiliau'r DU a thrwy hynny wella cynhyrchedd a pherfformiad ar draws yr economi.

7. Rôl Cyngor Sgiliau Sector yw gweithio'n agos gyda chyflogwyr i nodi anghenion cyflogaeth presennol eu busnesau yn ogystal ag anghenion y dyfodol.  Yna i nodi'r galwedigaethau allweddol a gweithio gyda chyflogwyr ar draws y Sector i ddiffinio fframwaith o Safonau Cenedlaethol o gymhwysedd  (safonau galwedigaethol cenedlaethol) ar gyfer bob un o'r galwedigaethau hynny.  Yna mae'r safonau hyn yn darparu'r sylfaen i gyflogwyr fedru nodi, trwy eu CSS, y cymwysterau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt, fydd yn cael eu cydnabod fel llwybr tuag at gyflogaeth.

8. Mae'r safonau hyn yn rhai y gellir eu defnyddio ar draws y DU ac maent yn galluogi CSSau i gynghori ymhob gwlad  ar ddatblygiad fframweithiau credyd a chymwysterau cenedlaethol, yn seiliedig ar farn gydgysylltiedig cyflogwyr.

9. Mae Cytundebau Sgiliau Sector bron wedi'u cwblhau ar gyfer pob CSS yng Nghymru ac mae'r rhain yn darparu sylfaen tystiolaeth ar gyfer rhaglen strategol o weithredu sydd wedi'i chytuno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau a phartneriaid allweddol, gan gynnwys Addysg Uwch.

10. Mae Strategaethau Cymwysterau Sector yn cael eu datblygu fel datganiad clir gan Sector am y math o gymwysterau mae cyflogwyr yn gosod gwerth arnynt.  Maent yn seiliedig ar y safonau cenedlaethol.  Hefyd, mae CSSau yn gyfrifol am ddatblygu fframweithiau Prentisiaeth sy'n seiliedig ar y safonau a'r cymwysterau hyn.

11. I grynhoi, mae CSSau yn cynnig i Addysg Uwch:

Sylfaen tystiolaeth glir sy'n seiliedig ar ymchwil i anghenion sgiliau pob sector o'r economi yng Nghymru a'r DU yn y dyfodol

Cyswllt gyda llais swyddogol a chydgysylltiedig cyflogwyr o fewn Sector a chymorth i lunio rhaglen sy'n cwrdd â'r  anghenion cyflogaeth.

Llwybr clir yn ôl i'r cyflogwyr i esbonio a hybu dealltwriaeth o'u rhaglenni.

Cyfle i wneud eu rhaglenni'n berthnasol ar gyfer cyflogaeth yn y DU.

## O Addysg i Gyflogaeth

12. Mesur allweddol o werth economaidd Addysg Uwch yw i ba raddau mae'n darparu llwybr i gyflogaeth. Mae lefel recriwtio graddedigion yn amrywio fesul Sector ac mae angen ei ddeall. Un feirniadaeth allweddol yw gorgyflenwi a diffyg perthnasedd rhaglenni o ran cyflogaeth.

13. Dylai'r bartneriaeth allweddol rhwng CSSau a SAU sicrhau bod yna drosglwyddo esmwyth rhwng addysg a chyflogaeth. Un pryder cyson i gyflogwyr yw perthnasedd galwedigaethol cymwysterau gradd. Cydnabyddir nad yw'r rhaglenni gradd wedi'u cynllunio i fod yn benodol alwedigaethol - fodd bynnag mae angen i unigolion fedru wneud dewis gwybodus. Mae angen inni fedru ateb y cwestiwn "os ydw i am fod yn .... oes angen gradd arna i ... ac, os felly, pa un?" Mae angen i'r cyflogwyr yn eu tro ddeall pa sgiliau sydd gan rai sydd â gradd arbennig.

14. Gall mapio rhaglenni gradd yn erbyn y sgiliau a'r wybodaeth a osodir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a gynhyrchir gan GSSau, helpu yn hyn o beth.

15. Mae nifer o Sectorau'n croesawu cynnwys profiad gwaith o fewn rhaglen radd alwedigaethol, eto mae hyn yn rhywbeth i'w archwilio gyda CSSau unigol. Mae darpariaeth hyblyg megis Graddau Sylfaen i'w weld yn ddull poblogaidd iawn o gysylltu addysg brifysgol gyda gwaith o fewn nifer o sectorau. Yn y Sectorau hyn, mae'r CSSau'n croesawu'r cyfle i weithio gyda SAU i lunio'r rhaglen a'r cynnwys. Yn wir, yn ymateb y Gynghrair i 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' mae CSSau'n annog 'mwy o gefnogaeth gadarn' i ddatblygiad y rhaglenni gradd sylfaen hyn o fewn sectorau lle ceir tystiolaeth o'r galw.

16. Mae cyflogwyr yn croesawu dysgu am gyfnodau byr ("bitesize) " a darpariaeth hyblyg a all gynorthwyo eu gweithwyr presennol i ddatblygu eu gyrfa. Mae uwchraddio sgiliau'r gweithlu presennol yn darged allweddol ar gyfer yr holl Sectorau. Mae medru camu nôl mewn i Addysg Uwch i ddatblygu sgiliau newydd wrth i'ch gyrfa ddatblygu'n bwysig i unigolion a'u cyflogwyr. Mae nifer o Sectorau'n gweld hyn fel y buddsoddiad gorau ar gyfer cynyddu niferoedd AU a chodi lefelau sgiliau. Fodd bynnag, mae darpariaeth hyblyg ac integreiddio dysgu o bell a dysgu sy'n seiliedig ar waith yn elfennau allweddol o'r rhaglenni hyn.

17. Mae cyflogwyr yn deall nad yw graddedigion yn aml yn 'eitemau gorffenedig'. Mae nifer fach o Sectorau wedi edrych ar y cysyniad o 'brentisiaethau ar gyfer graddedigion' i helpu cyflogwyr i ddarparu llwybr datblygu strwythuredig ar gyfer graddedigion all eu helpu i fewnosod eu hunain yn y sefydliad a galluogi'r cyflogwr i wneud y gorau o sgiliau graddedigion.

18. Mae angen sicrhau bod dealltwriaeth darlithwyr a staff colegau o ddiwydiant yn gyfredol. Gall CSSau gynorthwyo gyda hyn. Er enghraifft, mae rhaglen gyfnewid lwyddiannus yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon sy'n cynnwys CSSau a Phrifysgolion a cholegau, gan alluogi staff prifysgol i gamu nôl mewn i'r diwydiant i'w helpu i gyfarwyddo gyda'r datblygiadau diweddaraf. Ar yr un pryd gallant ymgymryd â phrosiect datrys problem i gynorthwyo'u cyflogwr.

## Ymchwil a Thechnoleg

19. Mae datblygu sgiliau technegol lefel uwch yn bwysig i rai diwydiannau technegol uchel arbennig. Mae gweithio'n agos gyda chyflogwyr sydd ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y Sectorau hyn yn hanfodol. O'r cyflwyniad gwelir bod CSSau unigol yn cynnig gweithio gyda SAU i lunio'r cynnwys er mwyn cwrdd â'r newidiadau hyn o ran anghenion.

20. Mae SAU yn ffynhonnell allweddol o arbenigedd ymchwil a datblygiad ar gyfer y byd diwydiannol a'r economi.

## Rheolaeth ac Arweiniad

21. Mae CSSau'n cydweithio gyda golwg ar Reolaeth ac Arweiniad. Mae hyn yn para i fod yn ffactor hanfodol o ran perfformiad yr economi. Gall rheolaeth wael danseilio datblygiad sgiliau a defnydd ohonynt yn y gweithle.

22. Byddai CSSau'n croesawu trafodaeth ar gynlluniau i greu 'canolfan ragoriaeth' ar gyfer rheolaeth ac arweiniad yng Nghymru ac i annog cydweithio rhwng ysgolion busnes.

23. Eto mae hwn yn faes lle datblygwyd safonau cenedlaethol trwy ymdrechion cydweithredol y CSSau a chyfraniad y Ganolfan Rheolaeth Genedlaethol.

24. Mae hwn yn faes lle mae hyblygrwydd y ddarpariaeth yn hanfodol a lle ystyrir cymwysterau'n llai pwysig na sgiliau. Bu rhaglenni sy'n helpu gyda datrys problemau a 'dysgu gweithredol' yn arbennig o lwyddiannus mewn economi sydd mor ddibynnol ar fusnesau bach. Eto byddem yn croesawu deialog ar hyn a chyfraniad y sector Prifysgolion.

## Casgliad

25. Gall y berthynas rhwng CSSau ac Addysg Uwch, ar y cyd ac ar lefel unigol, fod yn un bwerus, gan harneisio arbenigedd y ddau a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi yn y ffordd orau i sicrhau'r enillion gorau ar gyfer yr economi a'r gymdeithas yng Nghymru.

26. Mae'r Cytundebau Sgiliau Sector wedi agor y drws ar gyfer perthnasau newydd gyda sefydliadau unigol a CCAUC (HEFCW). Yn y cyflwyniad ceir nifer o enghreifftiau o uno arfer da a bydd y CSSau'n falch o drafod y rhain gydag aelodau'r Pwyllgor.

27. Mae cyflogwyr yn gweithio o fewn marchnad lafur y DU gyfan ac yn wir fwyfwy o fewn y farchnad fyd-eang. Gall cysylltiadau gyda CSSau helpu i sicrhau nid yn unig ein bod yn cwrdd ag anghenion cyflogwyr yng Nghymru ond bod modd trosglwyddo'r sgiliau hynny

ar draws yr un diwydiant ledled y DU.

28. Mae CSSau'n croesawu deialog a chyfathrebu parhaus gyda Phrifysgolion fydd yn helpu i lunio eu cynnig i gwrdd ag anghenion cyflogaeth eu sectorau.  Credwn mai trwy ddod â chyflogwyr at ei gilydd i greu un llais y gellir cael effaith go iawn ar y bartneriaeth gyda'r sector Prifysgolion.

**Stephen Studd**
Cadeirydd Fforwm Sgiliau Sector Cymru, Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector.
Prif Weithredwr, SkillsActive